Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Llwynypia
Teras yr Ysgol
Llwynypia
Tonypandy
RhCT
CF40 2HL

27/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llwynypia yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu'r cwricwlwm i ddarparu profiadau dysgu pwrpasol a dilys sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hyder, yn enwedig ym Mlynyddoedd 3-6

- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol buddiol i wella cysondeb ac ansawdd profiadau dysgu ar draws yr ysgol. Mae ffocws diweddar ar gefnogi disgyblion i ddod yn fwy annibynnol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hyder wrth gwblhau tasgau ac wrth siarad am eu gwaith.
- Mae athrawon wedi meddwl yn ofalus am sut gellir ymgorffori digwyddiadau a thripiau yng nghynllunio'r cwricwlwm i ddarparu mwy o gyfleoedd difyr ar gyfer disgyblion i ddatblygu eu medrau. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r agwedd hon ar eu gwaith ymhellach, i ymgorffori profiadau dysgu cyfoethog yn ehangach mewn gwersi bob dydd ar draws y cwricwlwm.
- Mae arweinwyr a staff yn dechrau cryfhau'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i ddylanwadu ar eu profiadau dysgu, er enghraifft trwy'r 'byrddau stori' a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r rhain yn galluogi disgyblion i gyfrannu eu syniadau at gynllunio'r cwricwlwm ac yn cefnogi ymgysylltu â'u dysgu.

- Mae uwch arweinwyr yn cydweithio ag ysgolion lleol i gynllunio ar gyfer dilyniant medrau mathemategol. Mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo athrawon i gynllunio profiadau dysgu mwy pwrpasol, gan alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau mathemategol mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Mae gan arweinwyr gynlluniau addas ar waith i barhau â'r gwaith hwn ar draws pob maes dysgu.
- Mae arweinwyr yn monitro effeithiolrwydd y cwricwlwm yn dda ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r camau nesaf yn ei ddatblygiad. O ganlyniad, er bod y cwricwlwm yn datblygu o hyd, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac yn mwynhau trafod a rhannu eu gwaith gyda disgyblion eraill.

## Sicrhau bod adborth yn rhoi dealltwriaeth glir i ddisgyblion o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da, ar y cyfan, yn gwella adborth fel ei fod yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen. Rhoddir adborth rheolaidd ar lafar i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae athrawon yn annog disgyblion yn effeithiol i feddwl yn ofalus am eu camau nesaf a rhoi cynnig ar dasgau yn annibynnol.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio systemau sefydledig i gywiro gwallau a gwella agweddau sylfaenol ar eu gwaith. Maent yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadegol yn rheolaidd, ac yn ailedrych yn ofalus ar gamdybiaethau mewn mathemateg.
- Er bod athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddrafftio, mireinio a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion, megis dechrau datblygu y mae'r dulliau hyn. Nid yw ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon a chyfoedion yn cefnogi disgyblion yn ddigon da yn gyson i'w galluogi i wneud gwelliannau ystyrlon i ansawdd a dyfnder eu gwaith ysgrifenedig.
- Mae marcio athrawon yn aml yn cynnwys cwestiynau sy'n herio disgyblion i feddwl yn ddwysach am eu dysgu. Pan mae hyn yn hynod effeithiol, er enghraifft mewn gwyddoniaeth, caiff disgyblion eu hannog i esbonio'u syniadau ymhellach a datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau allweddol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/llwynypia-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol